Cenn@d

TACHWEDD 10 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 37

# Cofio a choffáu – ‘Anfonaf angel’

**Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn ystyried pwysigrwydd cofio a sut mae modd gwneud hynny mewn ffordd adeiladol ac ystyrlon.**

### Tymor y Cofio

Mae’n dymor y cofio a’r coffáu ar hyn o bryd. Nodir Tachwedd 1af fel dyddiad dathlu Gŵyl yr Holl Saint yn y calendr eglwysig, gŵyl sy’n achlysur i roi diolch i Dduw am fywydau a marwolaethau ei saint – y rhai enwog a’r rhai anhysbys. Mae’n debyg fod tarddiad yr ŵyl yn mynd yn ôl i’r 8fed ganrif, wrth iddi gymryd lle’r hen ŵyl Geltaidd Samhain. Mae dathlu Gŵyl yr Holl Saint yn tarddu o’r gred fod cyswllt grymus rhwng y rhai sydd yn y nefoedd (yr ‘Eglwys Fuddugoliaethus’) a’r byw (yr ‘Eglwys Filwriaethus’).

Erbyn hyn, ceir llai o sôn am yr ŵyl ym mywyd yr eglwysi, wrth i fwy o sylw gael ei roi gan y gymuned ehangach i ŵyl Calan Gaeaf, gyda’i ddylanwad Eingl-Americanaidd dieflig a dychrynllyd. Ond a oes lle i ni fel Cristnogion i gofio, a sut orau fedrwn ni nodi hynny?

### Sul y Cofio

Cynhelir Sul y Cofio ar y Sul yn dilyn Tachwedd 11eg, sef y diwrnod a nodir i gofio diwedd swyddogol y Rhyfel Byd Cyntaf, ac mae’r Sul hwnnw eleni’n disgyn ar Dachwedd 14eg. Hwn yw’r diwrnod y cofir ym Mhrydain am y rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf a’r Ail Ryfel Byd, ac mae ei union ddyddiad yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. I ddechrau, ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd yn cael ei ddathlu fel ‘Diwrnod y Cadoediad’ (11 Tachwedd), ond ym 1945 newidiwyd yr enw i ‘Sul y Cofio’.

Ers 1956 mae’n cael ei nodi ar y dydd Sul cyntaf ar ôl Diwrnod y Cadoediad. Cedwir dau funud o ddistawrwydd am 11 o’r gloch y bore o flaen y Senotaff yn Llundain yng nghwmni’r teulu brenhinol a phrif wleidyddion San Steffan. Daw prif wleidyddion Cymru at ei gilydd o flaen y gofeb genedlaethol yng Nghaerdydd, a hynny i gofio llofnodi’r cadoediad a ddaeth â’r Rhyfel Byd Cyntaf i ben ar 11 Tachwedd 1918.








Yng Nghymru collwyd yn agos at 60,000 o fywydau yn y ddau ryfel byd, y rhan fwyaf o’r rheini’n fechgyn ifanc ac iach. Bydd pobl yn dewis gwisgo bathodyn y pabi coch i ddangos eu ‘cofio personol’ a rhoddir torchau’n cynnwys y pabi coch o flaen y cofebau rhyfel ledled y wlad. Bu gwerthu’r pabi coch yn ymdrech flynyddol gan y Lleng Brydeinig er mwyn codi arian ar gyfer y rhai a effeithiwyd gan ryfel ac i gefnogi teuluoedd y milwyr a gollwyd. Fe’i gwisgir fel arwydd gweledol o ymrwymiad i gofio am y rhai a gollwyd mewn rhyfeloedd byd.

Bydd rhai hefyd yn dewis gwisgo pabi gwyn yn hytrach na’r un coch. Mae’n cynrychioli tri pheth: symbol gweledol o gofio am bawb a fu farw oherwydd effaith rhyfel; arwydd o ymrwymiad i ymgyrchu a gweddïo dros heddwch; ac adduned i herio pob ymgais gan gymdeithas i ddathlu a gorfoleddu mewn grym militariaeth.

Cafodd ei greu mewn ymateb i’r pabi coch gan rai oedd yn teimlo bod cysylltiad rhy agos rhwng y pabi coch a’r lluoedd arfog, a’i fod yn cael ei ddefnyddio i glodfori rhyfelgarwch ac i gyfiawnhau rhyfela yn y cyfnod modern. Nid dim ond milwyr sy’n cael eu cofio drwy’r pabi gwyn, ond pawb sydd wedi marw oherwydd rhyfel. Mae’r gair ‘hedd’ wedi ei ysgrifennu yng nghanol y pabi hwn. Yn aml mae gwisgo pabi gwyn yn arwydd o wrthwynebiad i unrhyw fath o ryfel. Mae gwisgo’r pabi gwyn, fel y pabi coch, wedi bod yn fater dadleuol, gan fod rhai’n ei weld fel ymosodiad ar filwyr sydd wedi aberthu eu bywydau mewn rhyfel.

### Gŵyl o angylion

Yn Wrecsam, ar hyn o bryd, mae Eglwys Anglicanaidd Sant Silin wedi trefnu arddangosfa sy’n coffáu’r bywydau a gollwyd i Covid-19 yng Nghymru dros y 18 mis diwethaf. Wrth i mi fentro draw yno i ymweld â’r arddangosfa roedd 6,214 o angylion yn cael eu harddangos yn yr eglwys ar y pryd – a’r rheini wedi eu gwau a’u gwnïo’n gelfydd, pob un yn unigryw a gwahanol, ac yn llenwi’r eglwys o’r llawr i’r nenfwd, dros y muriau ac o amgylch y pileri.

Mae’r arddangosfa i’w gweld yno tan Ionawr 6ed, ac os byddwch yng nghyffiniau Wrecsam yn ystod y deufis nesaf, cofiwch fod modd troi i mewn i’r eglwys rhwng 10 a 4 o’r gloch bob dydd. Mae’n brofiad bendithiol ac emosiynol, ac yn gyfle i offrymu gweddi dros gydnabod a gollwyd i’r pandemig.

Diolch o galon i gyfeillion Sant Silin am drefnu hyn ac am roi cyfle i bobl ymgasglu a rhannu eu galar a’u hiraeth. Mae’n wledd i’r llygad, ond yr un pryd yn sobreiddiol o drist. Wrth fynd o gwmpas yr eglwys sylwais ar focs o dan y bwrdd yn yr eglwys – bocs oedd yn llawn o angylion nad oeddent wedi eu harddangos eto. Roedd hwn yn arwydd nad yw’r pandemig wedi ein gadael mewn gwirionedd, a bod bywydau’n dal i gael eu colli, ac y byddai angen ychwanegu angylion eto bob dydd.

### Cofio a dysgu

Bydd llawer yn cofio’n hiraethus am anwyliaid a gollwyd mewn rhyfel, am rai a gollwyd i bandemig creulon neu i drychineb damwain neu gyflafan. Yng Nghymru byddwn yn cofio am y 144 o fywydau a gollwyd, dros 120 ohonynt yn blant ifanc, yn nhrychineb Aberfan – ac er bod 55 mlynedd wedi mynd heibio, mae’r boen a’r golled yn aros, a’r cofio yr un mor bwysig.

(parhad ar y dudalen nesaf)

O’r byd a’r betws
Brechlyn Rhyfel
Tudalen 2

Y Silff Lyfrau
Heb eu Tebyg: Deg Portread (Harri Parri)
Tudalen 3

Cyfarfod Sefydlu’r
Parchedig Owain Idwal Davies
Tudalen 7

## *Cofio a choffáu – 'Anfonaf angel'*

*(parhad o dudalen 1)*



Yr her ym mhob cofio yw dysgu o'r profiadau hynny, gan geisio creu gwell yfory ar gyfer y genhedlaeth nesaf. O'r cofio rydym wedi cyfeirio ato uchod, gweddïwn dros fyd heddychlon, di-ryfel a di-drais ar gyfer y cenedlaethau a ddaw i'n dilyn; gweddïwn am fyd lle mae pob aflwydd a salwch wedi ei goncro gan driniaethau a brechlynnau er mwyn creu byd iach a llesol i bawb; a gweddïwn am gymunedau diogel heb beryglon lle nad oes bygythion ar sail llygredd a chasineb.

Gobeithio y gall llywodraethau ac arweinwyr ddysgu o brofiadau ymgyrchoedd rhyfel, delio â phandemig byd-eang a chyfrifoldeb lleol i ddiogelu pobl o fewn y gymuned. Diolch am gymorth meddygol, cymorth gwyddonwyr a chymorth pob diplomat a chymodwr yn y dyddiau heriol hyn. Cofiwn, coffawn a gweddïwn yn wylaidd dros ein dyfodol fel dynoliaeth.

Arglwydd pawb,
Heddiw cofiwn am bawb a effeithiwyd gan ryfeloedd,
gan bandemig a chan gyflafan neu ddamwain erchyll.
Cyflwynwn ein gweddïau dros bawb a adawyd yn alarus
a hiraethus.
Gofynnwn i Ti eu cofleidio â'th gariad tragwyddol.
Rho i ni nerth a gras i weithio o blaid byd gwell i bawb,
cymdeithas a chymuned ddiogel a chyfeillgar ar gyfer holl bobl
Dduw.
Helpa ni, wrth i ni gofio, i fod yn barod i weithredu er lles y byd.

Rho ddoethineb i bawb sy'n gweithio dros heddwch,
fel y gellir gwarantu dyfodol sicrach i bawb.
Rho ddewrder i'r rhai sy'n ymdrechu am gyfiawnder,
fel y gellir goresgyn achosion o wrthdaro.
Rho nerth i'r rhai sy'n ceisio chwalu muriau,
fel y gellir rhoi terfyn ar ymraniadau oherwydd hil, lliw, credo
a diwylliant.
Lle bynnag mae rhyfel neu fygythiad rhyfel yn parhau i
aflonyddu ar fywydau,
boed i lwybr cymod gael ei ddarganfod,
a boed i gytgord gael ei sefydlu rhwng pobloedd a
chenhedloedd.
Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi. Amen.

# O'r byd a'r betws

## Brechlyn Rhyfel



Erbyn cyhoeddi'r erthygl hon, bydd cynhadledd COP26 yn Glasgow yn tynnu at ei therfyn a'r wasg a'r cyfryngau'n brysur yn dadansoddi ei datganiadau. Bydd yna dyndra bargeinio wedi digwydd, fel ym mhob cynhadledd, ond prin y byddwn ninnau wedi dechrau amgyffred mor argyfyngus yw'r sefyllfa ar draws y byd.

### Dihidrwydd

Gwelsom luniau o ganlyniad stormydd a thanau, corwyntoedd a thywydd eithriadol boeth, a gwelwn ynddynt arwyddion o'n dihidrwydd ni i ofidiau pobl eraill. Oni bai mai ein tai a'n bywoliaeth ni sy'n profi'r erchylltra, gallwn yn hawdd gau ein llygaid, ac esgus mai mater i bobl eraill yw argyfwng hinsawdd.

### Tyndra

Onid yw'r un gwirionedd yn wir am dyndra rhwng pobl a'i gilydd, hyd at ryfel erchyll a chasineb gorffwyll rhwng pobl a arferai gyd-fyw mewn heddwch. O gwmpas y cofgolofnau rhyfel a chofio'r sawl a fu farw ar faes y gad byddwn yn talu gwrogaeth i ddewrder ein cyndadau, a diolch na fu rhyfel ar diroedd Prydain ers canrifoedd bellach. Ond prin fod hyn yn ddatrysiad i heriau gwledydd fel Syria ac Afghanistan.

### Gor-symleiddio

Nid oes modd i ni ddeall beth sy'n tanseilio heddwch mewn llawer o wledydd, na'r hyn sy'n bygwth stormydd cymdeithasol newydd yn rhai o wledydd cyfandir yr Affrig. Bydd cyflwyno dadleuon yn enw heddychiaeth yn rhesymol hawdd, nes ein bod yn clywed am anghyfiawnder a thrais, gan ofyn beth oedd achos y stormydd cymdeithasol hyn. Cyfeiriwyd droeon gan wleidyddion a phobl filitaraidd fod angen strategaeth diwedd y rhyfel cyn dechrau ar strategaeth mynd i ryfel. Hawdd deall y ddadl, ond paham mae gwleidyddion yn paratoi at ryfel drwy arfogi yn hytrach na buddsoddi mewn strategaeth cyd-fyw mewn byd cyfartal, cyfiawn a theg?

### Anghyfartaledd

Mae'n siŵr fod yr ymateb yn dweud fod y byd yn reddfol anghyfartal a dynion yn fodau anghyfiawn. Bydd anifeiliaid o bob rhywogaeth yn rhoi'r lle blaenllaw i'r cryfaf a'r sawl sydd drechaf dros eraill. Y llew cryfaf yw brenin ei fyd, a phan fydd eliffant sy'n drech na'r hen eliffant, hwnnw gaiff fod yn brif anifail ei diriogaeth. Onid rhan o neges sylfaenol Cristnogaeth yw sôn am ehangder hollgynhwysol cariad Duw, ac nad oes ganddo ffefrynnau yn ei Deyrnas? Nid cyfundrefn grym materol oedd dewis Iesu ond marchogaeth ar ebol asyn i mewn i Jerwsalem ei groeshoeliad.

### Cofio, cydymdeimlo a chyd-dynnu

Wrth gofio gyda theuluoedd galar y gorffennol, a hynny yn wylaidd a didwyll, ceisiwn gynnal breichiau teuluoedd y sawl a fu farw'n gwisgo lifrai milwrol pob gwlad. Yr un pryd, byddwn yn gweddïo am weledigaeth sut i herio tlodi ac anghyfiawnder ledled daear. Gobeithio'n wir y daw cyd-dynnu rhyngwladol parthed wynebu heriau cynhesu byd-eang, problem sy'n llawer mwy na heriau Covid-19, ond her ddyfnach fyth yw herio greddf anifeilaidd pob dyn i drechu eraill, a hawlio pŵer trais. Wrth ddiolch am frechlynnau i wynebu Covid, gweddïwn am frechlyn i droi casineb yn gariad ac y bydd y llew a'r llo yn cyd-bori. Oddi ar ei groes, deisyfodd Iesu ar ei Dad nefol i faddau i'r milwyr a'r dyrfa, ac i agor drws i sefydlu Teyrnas Newydd i fyd cyfan.

*Denzil John*